# Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

**2016 dccc 4**

## RHAN 1

TROSOLWG

### 1 Trosolwg

(1) Mae pum Rhan i'r Ddeddf hon.

(2) Mae'r Rhan hon yn rhoi trosolwg o'r Ddeddf hon.

(3) Mae Rhan 2 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979 (p.46), yn bennaf mewn perthynas â henebion hynafol yng Nghymru. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru lunio a chynnal cofrestr o barciau a gerddi hanesyddol.

(4) Mae Rhan 3 yn gwneud diwygiadau i Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (p.9) mewn perthynas ag adeiladau yng Nghymru sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ("adeiladau rhestredig").

(5) Mae Rhan 4 yn gwneud darpariaeth arall ynghylch yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, gan gynnwys darpariaeth—

- (a) ar gyfer llunio rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru (adran 34),
- (b) ar gyfer llunio cofnod amgylchedd hanesyddol ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru (adrannau 35 i 37), a
- (c) ar gyfer sefydlu'r Panel Cynghori ar Amgylchedd Hanesyddol Cymru, cyfansoddiad y panel hwnnw a'i swyddogaethau (adrannau 38 a 39).

(6) Mae Rhan 5 yn cynnwys darpariaeth sy'n gymwys yn gyffredinol at ddibenion y Ddeddf hon.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, RHAN 1 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 25 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

### Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 1 mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 41(1)(a)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, RHAN 1 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 25 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**

– Act repealed by 2023 asc 3 Sch. 13 para. 193